**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21$^{ain}$ Tachwedd 2011**

**ADOLYGIAD O'R TREFNIADAU GWAITH GWEINYDDOL**

**Adroddiad gan Colin Hanks, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau fod adolygiad wrthi'n cael ei gynnal o drefniadau gweithio cyfredol staff gweinyddol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Y Cefndir

2 Ar 1$^{af}$ Ebrill 2011, cafodd Strwythur yr Adolygiad o Swyddogion ei gyflwyno yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Roedd y gwaith ar ddatblygu'r strwythur newydd wedi tynnu sylw at y ffaith fod rhaid i bob swyddogaeth o fewn y Gwasanaeth, os oedd y strwythur newydd yn mynd i lwyddo, gael y lefel iawn o gefnogaeth – yn enwedig cefnogaeth weinyddol.

3 Er mwyn penderfynu a oedd y lefel angenrheidiol o gefnogaeth ar gael, trefnwyd adolygiad i edrych ar y gwahanol swyddogaethau a rolau gweinyddol yn y Gwasanaeth.

4 Roedd disgwyl i'r adolygiad:

- edrych ar Gefnogaeth Weinyddol gyfredol Strwythur yr Ochr Weithredol er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â Strwythur newydd yr Ochr Weithredol a ddechreuodd yn Ebrill 2011;
- asesu baich gwaith Rheolwyr Gwylfa'r System Dyletswydd yn ôl y Galw;
- trafod gydag Uwch Reolwyr, yn enwedig Rheolwyr Maes, er mwyn canfod eu gofynion o ran cefnogaeth weinyddol ar gyfer strwythur newydd yr ochr weithredol;

- edrych yn gyffredinol ar yr holl rolau gweinyddol yn y Gwasanaeth er mwyn sicrhau bod cydnerthedd, ac nad oes yr un rôl yn cael ei than-ddefnyddio.

**Gwybodaeth**

5 Cafodd yr Adolygiad y gorchwyl o edrych ar ddarpariaeth gyfredol y Gwasanaeth o ran cefnogaeth weinyddol i adrannau unigol, ac yn arbennig, edrych yn agos ar y gwaith gweinyddol a wneir gan Reolwyr Gwylfa'r System Dyletswydd yn ôl y Galw fel un o ofynion eu rôl.

6 Felly, bydd yr Adolygiad cyffredinol yn dilyn dau lwybr – y cyntaf yn canolbwyntio ar y dyletswyddau gweinyddol y mae pob rôl yn ymgymryd â hwy. Bydd hefyd yn sefydlu a yw pob rôl yn gyfyngedig i'r adran benodol honno ynteu a oes cyfle i gyfuno'r sgiliau hynny heb effeithio ar y gofynion rôl-benodol sydd ynghlwm wrth y swyddogaeth honno. Yn y dyfodol, byddai hyn yn galluogi'r Gwasanaeth i greu cydnerthedd ar adegau o salwch a gwyliau blynyddol.

7 Bydd ail ran yr Adolygiad yn canolbwyntio ar waith gweinyddol y System Dyletswydd yn ôl y Galw a wneir gan Reolwyr Gwylfa'r System honno. Bydd yn edrych ar y sefyllfa gyfredol o ran y Gweinyddwyr Gweinyddol yn Swyddfeydd Diogelwch y Siroedd i weld a allai gweinyddydd penodol ymgymryd â rhannau o'r gwaith gweinyddol sy'n ddisgwyliedig gan Reolwyr Gwylfa'r System Dyletswydd yn ôl y Galw. Yn y gorffennol, mae Rheolwyr Gwylfa wedi mynegi pryder ynglŷn â faint o waith gweinyddol y mae disgwyl iddynt ei gyflawni.

**Gwerthuso**

8 Ar hyn o bryd, mae dau gynllun peilot ar waith: mae swydd Gweinyddydd y System Dyletswydd yn ôl y Galw wrthi'n cael ei gwerthuso yn Ynys Môn; ynghyd â chyfuno staff gweinyddol o'r Adrannau Diogelwch Tân Cyfreithiol a Chymunedol a Swyddfa Sir Ddinych ar safle'r Rhyl. Caiff y gwerthusiad ei adolygu ddiwedd mis Tachwedd er mwyn penderfynu pa mor effeithiol yw'r trefniadau newydd arfaethedig.

**Argymhelliad**

9 Bod yr Aelodau'n nodi hynt yr adolygiad o'r ochr weinyddol hyd yn hyn.